# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips and J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwr H. Shepardson in respect of planning application S/21597
Mr G. Morgan, Cynlluniwr Trafnidiaeth gyda Fframwaith Atkins

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
B. Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir
C. Greves, Swyddog Rheoli Datblygu [Gorllewin]
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 11.45 yb - 1.20 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd I.W. Davies a G.B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Enw | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd B.D.J. Phillips | 4 – Cais Cynllunio W/39269 - Preswylfa arfaethedig ar dir ger Talar Deg, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0EL | Mae'r ymgeisydd yn gwsmer ac mae'r gwrthwynebydd yn aelod o'r teulu. |

## 3. YSTYRIED ADRODDIAD PENNAETH CYNLLUNIO YNGHYLCH Y CAIS CYNLLUNIO CANLYNOL [YR YMWELODD Y PWYLLGOR A'U SAFLE YN FLAENOROL] A PHENDERFYNU AR Y CAIS

### 3.1. S/21597 - ADEILADU 100 O ANHEDDAU A GWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR GER GARREGLWYD, PEN-BRE, SIR GAERFYRDDIN

Cyfeiriodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 4.1 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 22 Awst 2019) a drefnwyd er mwyn i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle yn sgil pryderon a godwyd yn lleol ynghylch yr effaith y briffordd a'r

amwynderau lleol. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Daeth sylwadau i law gan yr Aelod Lleol a phreswylwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cais, gan ailbwysleisio'r gwrthwynebiadau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio. Y prif feysydd pryder yw llifogydd posibl a'r systemau draenio dŵr brwnt, yr effaith ar seilwaith, diogelwch priffyrdd a cherddwyr, ac amwynderau. Felly, roedd y gwrthwynebwyr o'r farn bod y cynnig yn groes i Bolisïau TR1, TR3, EQ5, TAN 15, TAN 20 a TAN 24.

Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) ac asiant yr ymgeisydd i'r materion a godwyd gan y gwrthwynebwyr.

**PENDERFYNWYD gwrthod Cais Cynllunio S/21597, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio ar y sail ganlynol:-**

**3.1.1 Mae'n groes i Bolisïau TR1 a TR3, tagfeydd traffig a mynediad annigonol i'r safle; yn groes i Bolisi EQ5, yr effaith ar y Gymraeg ac yn groes i TAN 5, yr effaith ecolegol (pathewod).**

**3.1.2 Bydd y swyddogion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio ynghylch Adran 77 (Erthygl 18) yn cael ei galw i mewn.**

**4. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/39269** | **Preswylfa arfaethedig ar dir ger Talar Deg, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0EL**<br><br>[Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd B.D.J Phillips Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.] |

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]